

SL(5)631 - Gorchymyn (Cynrychiolaeth y Bobl) (Eithrio Treuliau Etholiad) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio:

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (OS 20072007/236),
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 1983

Ar hyn o bryd, yn achos etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, pan fo ymgeisydd anabl yn gofyn am fesurau wedi'u haddasu'n arbennig neu addasiadau rhesymol er mwyn cymryd rhan mewn ymgyrch etholiadol ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, yna mae'r treuliau ychwanegol cysylltiedig yn cael eu cynnwys naill ai o fewn o'u terfynau gwariant eu hunain neu derfynau gwariant plaid wleidyddol, fel y bo'n briodol.

Hefyd, yn achos etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol Cymru, pan fo angen cyfieithu i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, caiff y gost hon hefyd ei chynnwys naill ai yn nhreuliau'r ymgeisydd, neu o fewn terfynau gwariant ymgyrch plaid wleidyddol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth uchod i eithrio'r costau yr eir iddynt neu y gellir eu priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg o dreuliau'r ymgeisydd ac o derfynau gwariant ymgyrch plaid wleidyddol, yn unol â'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â darpariaethau Deddf y Gymraeg 1993.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pwynt a ganlyn wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod paragraffau 5.1-5.4 yn y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n anffurfiol ac yn ffurfiol ynghylch y Rheoliadau hyn. Nodwn yn benodol sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a sut y datblygodd y gwaith o ddrafftio'r Gorchymyn hwn, fel y nodir isod yn y Memorandwm Esboniadol.

"Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu cyngor a phwyntiau i'w hystyried wrth greu esemptiad rhag treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn seiliedig ar eu hasesiad o ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau hynny wedi eu hymgorffori wrth ddrafftio'r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, ni chafodd argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y dylid cymhwyso prawf rhesymoldeb i'r esemptiad ar gyfer treuliau cyfieithu ei gynnwys gan y byddai hyn yn arwain at wahaniaeth mewn perthynas â'r dull a ddefnyddiwyd gydag ymgyrchwyr di-blaid."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

